# Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-11-10-p1: 10 Mehefin 2010

### Tystiolaeth Plant yng Nghymru i'r Ymchwiliad ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru sy'n dod â mudiadau ac unigolion ynghyd. Ei rôl yw gwneud y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant yn realaeth yng Nghymru. Mae Plant yng Nghymru hefyd yn ymladd am wasanaethau cynaliadwy ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, gan roi sylw arbennig i blant mewn angen, yn ogystal â sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael llais mewn materion sy'n effeithio arnynt.

Mae gan Plant yng Nghymru dros 200 o aelodau, yn cynnwys y prif asiantaethau gwirfoddol ar gyfer plant, cymdeithasau proffesiynol ac awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â llawer o grwpiau cymunedol llai. Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso amrywiaeth o fforymau yn cynnwys magu plant, tadau, plant anabl, dileu tlodi plant, cyfranogiad, diogelwch plant ac ati. Mae ganddo hefyd adran hyfforddiant sy'n ymwneud â gwaith diogelu ac amddiffyn plant.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r National Children's Bureau yn Lloegr a Children in Scotland a Children in Northern Ireland. Yn rhyngwladol, mae'n aelod gweithgar o Eurochild a'r Fforwm Rhyngwladol dros Les Plant.

Mae Plant yng Nghymru yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor ac mae ein tystiolaeth yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant fod yn 'addas i'r diben' ac mai'r rheswm sylfaenol dros eu bodolaeth yw diogelu plant a hefyd weithredu i ddynodi a rhagatal risgiau newydd i blant a phobl ifanc yn yr ardal.

Er y cyflawnwyd llawer wrth ostwng marwolaethau ac anafiadau plant o gymharu â gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, mae'n amlwg y bu trasiedïau a ddangosodd fod angen gwelliannau sylweddol o hyd. Rhoddir ffocws cryf i'r angen hwn, yn arbennig gan y cyfryngau pan fo trasiedi. Fodd bynnag nid oes fawr neu ddim sôn amdano ym maniffestos pleidiau gwleidyddol pan fyddant yn canfasio am bleidleisiau'r cyhoedd - iechyd ac addysg yw'r flaenoriaeth bob amser ac nid oes sôn am wasanaethau cymdeithasol. Y gwahaniaeth yng nghyswllt plant yw mai dim ond canran fechan iawn sydd 'mewn angen' ac yn galw am ymyriad y gwasanaethau cymdeithasol o gymharu â'r rhai sy'n manteisio o'r gwasanaethau cynhwysfawr a gynigir gan iechyd ac addysg.

Mae'n achos rhwystredigaeth y bu canlyniadau ymchwiliad ar ôl ymchwiliad yn gyson yn eu hargymhellion y dylai asiantaethau gyfathrebu a chydweithio yn well.

Mae'r dystiolaeth hon gan Plant yng Nghymru wedi ei seilio'n arbennig ar y gwaith sylweddol y gwnaethom ei gyfrannu i baratoi Adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr Adolygiad Diogelu Plant Agored i Niwed yn 2006. Ein cred yw y dylai'r 'ffurf ddilyn y swyddogaeth' a bod angen i strwythurau fod yn ymatebol i'r amgylchedd allanol. Fodd bynnag, nid her fechan mo hyn ar gyfer gweithrediad logistaidd.

Canfyddiadau allweddol yr Adolygiad Diogelu Plant Agored i Niwed oedd y dylid mynd i'r afael â'r heriau dilynol:

Her 1: Y plant - adeiladu ar gynlluniau i'w dodi yng nghanol datblygu polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio arnynt a gwella, ehangu a symleiddio trefniadau ar gyfer gwrando arnynt ac eirioli ar eu rhan.

Her 2: Y cyhoedd - mynd i'r afael ag agweddau at blant yn ein cymdeithas, sy'n ymddangos yn ddryslyd ac yn gwrth-ddweud ei gilydd.

Her 3: Y gweithlu- gwella lefelau, sefydlogrwydd, hyder, cymhwysedd, cefnogaeth a boddhad swyddi pobl sy'n gweithio gyda phlant.

Her 4: Y systemau ffurfiol - i'w gwneud yn fwy cyfeillgar i blant, a gydag adnoddau gwella a mwy cyson ac addas i'r diben.

Her 5: Y weledigaeth a'r stratagaeth- datblygu a gweithredu gweledigaeth a strategaeth integredig gadarn hirdymor ar gyfer gwasanaethau cyson ar gyfer plant agored i niwed.

Her 6: Y cyllid - adolygu, gwerthuso a symleiddio mantol buddsoddiad mewn gwasanaethau ar gyfer plant a chryfhau a sefydlogi ffrydiau cyllid.

Her 7: Y risgiau newydd- datblygu capasiti mwy effeithlon ar gyfer dynodi ac ymateb i risgiau sy'n datblygu i blant agored i niwed.

### Pa mor briodol yw polisi a chanllawiau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â Byrddau Lleol Diogelu Plant:

Mae dwy set o faterion yn ymwneud â pholisi a chanllawiau mewn perthynas â Byrddau Lleol Diogelu Plant.

Yn gyntaf mae canllawiau Llywodraeth y Cynulliad i ystod o Bartneriaethau yn ogystal â'r Byrddau Lleol Diogelu Plant - h.y. Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Iechyd a Lles.

Yn ail, mae canllawiau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gyrff nad ydynt wedi eu datganoli megis yr heddlu. Ymddengys i bob un gael eu hysgrifennu ar wahân ac mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn aml yn treulio amser yn ymdrechu i wneud synnwyr o'r canllawiau yng nghyswllt gwaith aml-asiantaeth. Mae hefyd flaenoriaethau pwysig wedi'u nodi ar gyfer asiantaethau unigol yng nghyswllt sut y dylent flaenoriaethu eu gwaith creiddiol megis targedau SAFF yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae felly'n dilyn os nad yw blaenoriaethu amddiffyn/diogelu plant a chyfrannu at weithgaredd y Byrddau Lleol yn flaenoriaeth i asiantaeth unigol, yna mae llai o berchnogaeth. Mewn geiriau eraill caiff amser ac adnoddau eu gwastraffu yn datblygu cyd-ddealltwriaeth gan aelodau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a medrai fod yn sylweddol fwy cydlynol. Byrddau Lleol Diogelu Plant y Byrddau Gwasanaeth Lleol yw'r strwythur trosfwaol ar gyfer blaenoriaethau cyflenwi gwasanaeth ym mhob ardal awdurdod lleol a dylent gael cyfrifoldeb yng nghyswllt yr agenda diogelu.

Bydd ad-drefnu'r GIG yng Nghymru yn golygu fod angen diwygio Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 a medrai fod yn gyfle ar gyfer diweddaru a sicrhau cydlyniaeth ar draws pob asiantaeth.

Ar hyn o bryd ymddengys fod dehongliad y canllawiau yn amrywio ar draws Cymru a byddai ymagwedd Cymru-gyfan yn fanteisiol - ee yng nghyswllt adolygiadau achos difrifol.

### Pa mor briodol yw cwmpas a ffocws cyfrifoldebau Byrddau Lleol Diogelu Plant:

Yn y gwaith a wnaethpwyd gan grŵp eang a phrofiadol a arweiniodd at Adolygiad Diogelu Plant Agored i Niwed 2006 cytunwyd fod materion pwysig i'w datrys os yw Byrddau Lleol Diogelu Plant i lwyddo. Roedd y materion hyn yn cynnwys yr angen i fod yn glir am gysylltiadau strategol lleol, yr angen i gytuno ar ddiffiniad o'r gweithgareddau a chyfrifoldebau a gaiff eu cynnwys mewn diogelu, a'r angen i sicrhau fod gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant yr aelodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu eu cyfrifoldebau. Dywedwyd fod hanes wedi dangos mai ychydig os oedd unrhyw rai o'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant oedd wedi mwynhau ymrwymiad ac adnoddau priodol gan aelod asiantaethau. Mae'n hollbwysig y gall y Byrddau Lleol Diogelu Plant fonitro perfformiad a dal asiantaethau yn gyfrifol am ddiogelu plant a rhaid iddynt dderbyn cydweithrediad llawn yn y dasg yma. Adeg ysgrifennu'r adroddiad, mynegwyd rhai amheuon a phryderon am y materion hyn ac anogwyd Llywodraeth y Cynulliad i gadw golwg agos i sicrhau fod gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant y ddarpariaeth a'r galluedd i gyflawni'r lefelau perfformiad a fwriedid.

Mae'r amheuon uchod a wnaed yn 2006 mewn llawer ffordd wedi dod i ffrwyth ac unwaith eto'n dangos y medrid bod wedi osgoi rhai o'r maglau sy'n wynebu diogelu plant pe byddid wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i gyngor arbenigwyr yn y maes.

Bu'r angen i sicrhau ymagwedd canoli ar y plentyn a chontinwwm o wasanaethau gan bob asiantaeth sy'n trafod yr agenda diogelu ehangach yn ogystal â'r agenda diogelu plant gyda ffocws yn gryn her ac mae amrywiad sylweddol ledled Cymru. Gallodd rhai Byrddau Lleol Diogelu Plant sicrhau bod y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc neu Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gyfrifol am neu'n goruchwylio diogelwch plant ar y ffyrdd, yn y cartref, yn chwarae allan, yn cael eu bwlio ac yna'i gysylltu'n ôl i'r Byrddau Lleol. Fodd bynnag mae maint a phroffil y gwaith caled ar ddiogelu plant yn aml ac yn anochel wedi cael blaenoriaeth.

Mae Plant yng Nghymru yn ymroddedig i ac yn wir wedi hyrwyddo'n gryf yr angen i gael agenda sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n cwmpasu pob agwedd o ddiogelu ee risgiau newydd megis technoleg newydd, plant yn byw mewn sefyllfaoedd o drais yn y cartref neu gamddefnyddio sylweddau, chwarae diogel ac ati yn ogystal â materion cam-drin plant. Fodd bynnag ni chredwn y gall gweithredu agenda mor eang gael ei gyfyngu i Fyrddau Lleol Diogelu Plant. Credwn fod yn rhaid cael strwythur sy'n delio mewn ffordd sydd â ffocws pendant ar ddiogelu plant, hynny ywy Byrddau Lleol Diogelu Plant, gyda diogelu cyffredinol plant yn dod yn ganolog i fusnes craidd pob asiantaeth ar yr un pryd.

Oherwydd hyn awgrymwn fod yn rhaid i'r Byrddau Gwasanaeth lleol gymryd mwy o berchnogaeth o'r agenda diogelu ehangach a'i yrru drwy bob asiantaeth o'r lefel uchaf a thrwy bob un o'r Partneriaethau - Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a HWB. Hyd yma bu'n amhosibl i bob asiantaeth roi gwasanaeth digonol i'r holl bartneriaethau sydd â pherthnasedd i ddiogelu, yn arbennig asiantaeth sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol fwy megis iechyd neu'r heddlu.

Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant barhau'n atebol am y gwaith diogelu plant ffocysedig a dylai sicrhau fod staff medrus ac arweinyddiaeth a chydweithredu priodol ar gyfer y dasg. Byddai wedyn yn fwy cyraeddadwy sicrhau datblygu ymarfer ar draws Cymru.

### Aelodaeth o Fyrddau Lleol Diogelu Plant o ran rôl partneriaid statudol a hefyd y sector gwirfoddol a sefydliadau llai / arbenigol;

Er yn gyffredinol bod Byrddau Lleol Diogelu Plant yn denu cynrychiolaeth staff hŷn (ac mewn rhai achosion staff hŷn nag a wnaiff y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc), nid yw hyn yn wir bob amser a gall achosi problemau oherwydd y gall dirprwyo arwain at oedi mewn penderfyniadau gweithredol gan asiantaethau unigol. Mae'r nifer o bartneriaethau, is-grwpiau a gweithgorau y disgwylir i'r gwasanaeth iechyd a'r heddlu eu mynychu yn achosi materion galluedd neilltuol iddynt. Mae cynrychiolaeth y Trydydd Sector wedi'i gyfyngu i ychydig o sefydliadau fel arfer yn cynnwys yr NSPCC ac felly mae'r rhan fwyaf o gyfraniad trydydd sector i'r agenda diogelu ehangach yn fwy tebygol o fod drwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc sydd â chyswllt i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol a rhwydweithiau arbenigol cenedlaethol. Mae hyn yn fater hollbwysig wrth ystyried diogelu yn ei ystyr ehangach a hefyd ddiogelu yng nghyswllt agweddau neilltuol e.e. gofalwyr ifanc, iechyd meddwl, plant anabl ac ati.

Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn amrywio mewn maint ond yn gyffredinol maent yn fwy na'r gynrychiolaeth sydd ei hangen yn statudol.

Gyda chwmpas sylweddol i sefydliadau gydweithio a chanfod arbedion maint, gall fod yn addas ystyried gostwng cyfanswm nifer y Byrddau. Fodd bynnag, dylid sicrhau pwysigrwydd gwybodaeth leol am achosion diogelu plant.

## Trefniadau ar gyfer ariannu Byrddau Lleol Diogelu Plant

Er nad yw'r ffigurau cyfredol gennym, bu bob amser amrywiaeth sylweddol ym maint cyllid asiantaethau statudol i'r Byrddau Lleol Diogelu Plant a gwasanaethau cymdeithasol wedi tueddu i gyfrannu'n gymharol fwy. Nid yw rhai asiantaethau wedi gwneud unrhyw gyfraniad o gwbl ac mae rhai sy'n cwmpasu nifer o Fyrddau Lleol Diogelu Plant wedi ariannu'r Byrddau yn wahaniaethol.

Mae amrywiaeth am eglurder pa swyddogaethau y dylai'r Byrddau Lleol eu gwneud a sut y dylid eu hariannu. Mae rhai wedi ariannu Cadeirydd/ion annibynnol yn ogystal â gweithgareddau penodol. Rydym ni o'r farn fod annibyniaeth Cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant o wir fudd gan ei fod yn osgoi gwrthdaro diddordeb.

Credwn y dylai fod canllawiau penodol am gronni cyllidebau i sicrhau y gall y Byrddau Lleol Diogelu Plant weithredu a pherfformio eu swyddogaethau'n effeithlon.

Roedd y swm cynnil o arian gan Lywodraeth y Cynulliad i'r Byrddau Lleol Diogelu Plant yn 2009-2010 ar gyfer y dilynol:

"gweithgaredd datblygu yn defnyddio'r Offeryn Hunanasesu a Gwella (SAIT) wedi'i gwblhau ac adrodd i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru erbyn 28 Chwefror 2010"

Byrddau Diogelu Plant Lleol i gynnal gweithgaredd datblygu aml-asiantaeth gyda phartneriaethau strategol allweddol i hyrwyddo gwell perthynas waith rhwng y Byrddau Lleol Diogelu Plant a phartneriaethau strategol eraill awdurdodau lleol (Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles).

Ymddengys i ni nad yw cymhlethdod y strwythurau a'r berthynas rhyngddynt yn hybu dull cydlynol a llyfn.

## Perthynas Byrddau Lleol Diogelu Plant â phartneriaethau lleol eraill, gan cynnwys Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Gwasanaeth Lleol, y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd arfaethedig.

Mae'r hinsawdd bresennol o adnoddau gostyngol ac ymgyrch Llywodraeth Cynulliad Cymru i osgoi dyblygu, i gydweithio ac osgoi biwrocratiaeth ormodol yn awgrymu system or-gymhleth o ryngwynebau partneriaethau a grwpiau aml-asiantaeth sy'n effeithio ar bob sector.

Fel yr amlinellwyd uchod, dylid integreiddio'r agenda diogelu ehangach i mewn i waith yr holl bartneriaethau a rôl y Byrddau Gwasanaeth Lleol yw goruchwylio ardal awdurdod lleol. Gall fod yn amserol ystyried strwythur y Byrddau Lleol Diogelu Plant yng nghyswllt y partneriaethau Plant a Phobl Ifanc gan fod y cysylltiadau rhyngddynt yn amrywio'n sylweddol ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gyswllt mewn rhai achosion. Mae angen eglurdeb pa un yw'r bartneriaeth drosfwaol.

Wrth ystyried y cysylltiad gyda'r Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd, mae'n rhy gynnar ffurfio barn heblaw ail-ddatgan pwysigrwydd rôl y Byrddau Gwasanaeth Lleol wrth sicrhau gweithredu'r agenda diogelu ehangach sy'n cynnwys gwasanaethau oedolion megis iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, trais yn y cartref ac ati.

## Effeithiolrwydd y Byrddau Lleol Diogelu Plant o ran hybu lles a'r gwaith o warchod grwpiau penodol o blant sy'n agored i niwed, fel plant ag anableddau, plant sy'n geiswyr lloches, plant sydd wedi cael eu masnachu a phlant o grwpiau pobl dduon a lleiafrif ethnig;

Ein hargraff yw bod hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru. Yng nghyswllt plant anabl, mae Plant yng Nghymru yn cynnal fforymau cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'r rhai sy'n gweithio gyda hwy yn ogystal â chyrsiau ar ddiogelu plant a phlant anabl. Nid yw'n ymddangos fod llawer o gyswllt rhwng y gweithwyr hyn a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant na'r ffordd arall o gwmpas.

Mae angen sylweddol i godi ymwybyddiaeth ar draws proffesiynau. Er enghraifft, mae'n hanfodol na chaiff ymddygiad rhywioledig ei ddehongli'n syth fel bod yn ymwneud ag anabledd. Mae hefyd angen i weithwyr plant anabl gydnabod fod y plant yn eithriadol o agored i gael eu cam-drin.

Mae rhai Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi ystyried ecsbloetiad rhywiol a masnachu plant ond cafodd ei hyrwyddo'n llawer mwy gan gyrff yn y trydydd sector. Ni wyddom am unrhyw waith sylweddol ar ddiogelu plant o gefndiroedd du a lleiafrif ethnig.

Mae gennym hefyd brosiect sy'n gweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru i hyrwyddo diogelu plant mewn cymunedau ffoadur. Hyd y gwyddomi, ni chafodd unrhyw waith yn y maes hwn ei hyrwyddo gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant.

## Effeithiolrwydd Byrddau Lleol Diogelu Plant yn eu rôl benodol o ran hybu dyletswyddau a chyfrifoldebau rhannu gwybodaeth asiantaethau partner Byrddau Lleol Diogelu Plant;

Bu ffocws ers rhai blynyddoedd ar rannu gwybodaeth effeithlon a gweithredwyd rhai polisïau a dulliau ymarferol ar y cyd. Fodd bynnag, mae ffordd bell i fynd yn nhermau deall y materion cyfreithiol a hefyd wrth weithredu systemau a all siarad gyda'i gilydd!

Medrai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth y Cynulliad ddarparu cyfarwyddyd Cymru-gyfan ar gyfer hyn ar ôl dysgu o brofiad Lloegr lle'r oedd gan Ddeddf Plant 2006 ofynion penodol ac wedi dechrau ei weithredu cyn Cymru.

## Effeithiolrwydd Byrddau Lleol Diogelu Plant o ran cynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith

Byrddau Lleol Diogelu Plant fu'r strwythurau aml-asiantaeth diwethaf i goleddu cysyniad cynnwys plant a phobl ifanc yn eu gwaith. Mae'n ddyddiau cynnar iawn a bu'n ddefnyddiol y dynodwyd y mater yma drwy broses hunanasesu'r Byrddau. Gall gweithredu cyfranogiad plant a phobl ifanc yn yr agenda diogelu ehangach fod yn cael ei drafod drwy'r fforymau plant a ieuenctid/cynghorau ysgol ac ati ond ychydig o dystiolaeth sydd fod hyn yn effeithio ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant na'n cael ei gydlynu ganddynt. Fodd bynnag, mae ymhell o fod wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol ar gyfer plant sy'n cymryd rhan yn y broses diogelu plant sy'n galw am sgiliau staff neilltuol ac adnoddau cywir.

Mae'r adroddiad 'Ein Cadw'n Ddiogel' a gyhoeddwyd yn 2006 ac y cyfeiriwyd ato uchod yn manteisio'n helaeth o roi ystyriaeth i farn plant. Dywedwyd mai cyfraniad plant oedd y cyfraniad pwysicaf i'r Adolygiad a bod y cyfraniad hwnnw wedi'i ffocysu'n bennaf drwy'r prosiect, wedi ei hwyluso gan yr NSPCC. Fel canlyniad i'r prosiect, derbyniodd yr Adolygiad adroddiad manwl a chyflwyniad gan y bobl ifanc a ffurfiodd grŵp llywio'r prosiect. Rhoddodd y bobl ifanc hefyd gyngor ar deitl yr Adroddiad. Yn ogystal â'r prosiect, ystyriodd yr Adolygiad hefyd ffynonellau eraill o farn plant megis arolygon o farn plant ac adroddiadau ymgynghori eraill.

Ein barn ni yw y bu'r Byrddau Lleol Diogelu Plant yn araf wrth gynnwys plant o gymharu â strwythurau eraill sy'n datblygu polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc.

### Crynodeb/Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau fod cyfarwyddyd a thargedau craidd asiantaethau yn glir ar draws pob disgyblaeth, wedi eu datganoli a heb eu datganoli, ac y caiff 'Gweithio gyda'n Gilydd', ei ddiweddaru i adlewyrchu'r strwythurau presennol yng Nghymru.

Dylai Byrddau Gwasanaeth Lleol gael cyfrifoldeb am sicrhau fod pob partneriaeth yn blaenoriaethu'r agenda diogelu ehangach.

Dylai fod eglurdeb am rôl y Byrddau Lleol Diogelu Plant yng nghyswllt yr agenda diogelu ehangach yng nghyswllt y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a Phartneriaethau.

Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant sicrhau fod ffocws cadarn ar bob agwedd o ddiogelu plant yn cynnwys cefnogi ymarfer proffesiynol da a monitro a gwerthuso.

Dylid ystyried annibyniaeth Cadeiryddion Byrddau Lleol Diogelu plant a'i ariannu'n briodol gyda chyfarwyddyd i fod yn sylfaen i awdurdod y rôl i sicrhau fod asiantaethau'n cydymffurfio.

Dylid datblygu dulliau o rannu gwybodaeth ac arfer da rhwng Byrddau Lleol Diogelu Plant ar draws Cymru yng nghyswllt diogelu grwpiau agored i niwed lle mae niferoedd yn isel - e.e. ffoaduriaid/plant a gafodd eu masnachu ac ati. Medrai hyn gael ei gefnogi gan Lywodraeth y Cynulliad a/neu gorff megis Plant yng Nghymru.

Catriona Williams
Mehefin 2010